Taflen wybodaeth 58w ● Mehefin 2025

# Talu am ofal dros dro mewn cartref gofal yng Nghymru




**Cyngor Age Cymru**

**0300 303 44 98**

**www.agecymru.wales**

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Gwybodaeth am y daflen wybodaeth hon | 3 |
| | 1.1 Diffiniadau a therminoleg | 3 |
| 2 | Deddfwriaeth sy'n ymdrin â'r system gofal cymdeithasol yng Nghymru | 5 |
| | 2.1 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chanllawiau'r Cod Ymarfer cysylltiedig | 5 |
| 3 | Cefndir – cael cymorth gan eich awdurdod lleol a'r prawf modd ariannol ar gyfer cartrefi gofal | 6 |
| | 3.1 Asesu anghenion a chymhwysedd ar gyfer gwasanaethau | 6 |
| | 3.2 Canllawiau Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ar y prawf modd ariannol | 6 |
| | 3.3 Gwybodaeth sy'n benodol i arhosiad dros dro mewn cartref gofal | 7 |
| | 3.4 Dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â gwybodaeth a chyngor ac eiriolaeth | 8 |
| 4 | Rheolau am godi tâl penodol lle penderfynir y bydd angen trefnu gofal dros dro | 8 |
| | 4.1 Dyma ddiffiniadau o'r gwahanol fathau o arosiadau mewn cartrefi gofal, fel y nodwyd yn Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru | 8 |
| | 4.2 Profion modd, a'r rheolau ar gyfer gwahanol fathau o leoliadau mewn cartrefi gofal | 9 |
| 5 | Budd-daliadau lles yn ystod cyfnod o ofal dros dro mewn cartref gofal | 13 |
| | 5.1 Budd-daliadau Anabledd – Lwfans Gweini, Taliad Annibyniaeth Bersonol a Lwfans Byw i'r Anabl | 13 |
| | 5.2 Credyd Pensiwn | 14 |
| 6 | Pan fydd gofal dros dro yn dod yn barhaol | 15 |
| 7 | Adsefydlu – gofal canolradd, ailalluogi a chyfleuster â gwelyau cam i lawr er mwyn adfer | 16 |
| 8 | Sefydliadau defnyddiol | 18 |
| 9 | Rhagor o wybodaeth am Age Cymru | 20 |

# 1 Gwybodaeth am y daflen wybodaeth hon

Mae'r daflen wybodaeth hon yn esbonio sut mae asesiad ariannol awdurdod lleol a rheolau codi tâl ar gyfer *arhosiad tymor byr* neu *arhosiad dros dro* mewn cartref gofal yn wahanol i leoliad hirdymor / parhaol.

Gall pobl fynd i fyw mewn cartref gofal am gyfnod byr neu dros dro am amrywiaeth o resymau. Er enghraifft:

- I roi seibiant iddyn nhw neu i'w gofalwyr.
- Tra eu bod yn gwella wedi cyfnod o salwch, ar ôl bod yn yr ysbyty am gyfnod hir (mae cartrefi gofal yn medru darparu pecynnau gofal ar gyfer pobl sy'n gwella eu hiechyd. Mae gwybodaeth am hyn yn y ddogfen hon, ond gweler hefyd Taflen Wybodaeth 76w Age Cymru *Ail-alluogi, gofal canolraddol a gwasanaethau ataliol yng Nghymru*).
- Lle mae rhywun yn dal i fod yn dymuno dychwelyd i fyw yn eu cartref eu hunain, a dydyn nhw ddim eisiau symud i fyw'n barhaol mewn cartref gofal.
- Mae unigolyn yn awyddus i weld sut mae'n teimlo i fyw mewn cartref gofal, naill ai am y rheswm uchod, neu i roi cynnig ar gartref gofal penodol.

Mae adroddiad manwl o'r rheolau codi tâl cyffredinol ar gael yn Nhaflen Wybodaeth 10w Age Cymru *Talu am leoliad cartref gofal parhaol yng Nghymru*. Mae gennym nifer o daflenni gwybodaeth eraill sy'n canolbwyntio ar ddod o hyd i gartref gofal a/neu agweddau penodol ar y rheolau codi tâl mewn cartrefi gofal.

---

**Nodwch:** Mae'r wybodaeth a roddir yn y daflen wybodaeth hon yn berthnasol yng Nghymru. Gall rheolau gwahanol fod yn berthnasol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Cysylltwch ag Age UK, Age NI ac Age Scotland yn y drefn honno i gael rhagor o wybodaeth.

---

## 1.1 Diffiniadau a therminoleg

### Adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

Yn y daflen wybodaeth hon bydd cyfeiriadau at yr **'awdurdod lleol'** neu at y **'cyngor'** yn cyfeirio at *adran gwasanaethau cymdeithasol oedolion* yr awdurdod lleol.

Mewn mannau eraill, efallai byddwn ni’n cyfeirio at yr adran gwasanaethau cymdeithasol perthnasol fel hyn:

- adran gofal cymdeithasol;
- gwasanaethau cymdeithasol oedolion;
- adran pobl hŷn;
- tîm pobl hŷn.

Mae timau gwasanaethau cymdeithasol oedolion yn gyfrifol, ymhlith dyletswyddau eraill, am asesu anghenion pobl am wasanaethau 'gofal a chymorth' neu 'gofal cymdeithasol' a phenderfynu a yw'r anghenion hynny'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd.

---

**Nodwch: Dod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer eich adran gwasanaethau cymdeithasol**

Os oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, gallwch chwilio am eich awdurdod lleol gan ddefnyddio'ch cod post ar wefan Llywodraeth Cymru:

https://gov.wales/find-your-local-authority

Fel arall, cysylltwch â Chyngor Age Cymru – ewch i adran 8.

---

## 'Cartrefi gofal'

Mae'r term 'cartref gofal' yn cwmpasu unrhyw sefydliad sy'n darparu llety gyda naill ai:

- gofal personol; *neu*
- gofal personol ynghyd â gofal nyrsio.

**Yn aml, gellid defnyddio'r termau 'cartref gofal preswyl' a 'cartref gofal nyrsio' i wahaniaethu rhwng y ddau fath o gartref**, er gall fod amrywiad yn y mathau o anghenion gofal y mae’r cartref yn eu trin.

Mae gan daflen wybodaeth Age Cymru 29w *Dod o hyd i lety cartref gofal yng Nghymru* rhagor o wybodaeth am y gwahanol fathau o gartrefi gofal.

Gall cartrefi gofal preswyl a chartrefi gofal nyrsio ddarparu arbenigeddau / gwasanaethau amrywiol (e.e. gofal dementia). Fodd bynnag, rhaid i gartref beidio â darparu gofal nyrsio os nad yw wedi'i gofrestru at y diben hwnnw. Rhaid i bob cartref gofal fod wedi'i gofrestru fel 'darparwr gwasanaeth' gyda'r rheoleiddiwr, Arolygiaeth Gofal Cymru, sy'n gyfrifol am arolygu a chofrestru cartrefi – mae eu manylion cyswllt yn adran 8.

# 2 Deddfwriaeth sy'n ymdrin â'r system gofal cymdeithasol yng Nghymru

## 2.1 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chanllawiau'r Cod Ymarfer cysylltiedig

Cafodd y Ddeddf hon ei gweithredu'n llawn ym mis Ebrill 2016 a dyma'r brif ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu'r system gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys:

- y broses asesu gofal cymdeithasol;
- rheolau cysylltiedig mewn perthynas â threfnu a thalu am gartrefi gofal preswyl a chartrefi gofal nyrsio[1];
- y canllaw y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu defnyddio wrth asesu anghenion; *a'r*
- canllawiau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu defnyddio wrth brofi pobl a allai fod angen talu am eu gwasanaethau.

**Bydd llawer o'r adrannau yn y daflen wybodaeth hon (a thaflenni gwybodaeth eraill Age Cymru ar bynciau'n ymwneud â gofal cymdeithasol) yn defnyddio'r Ddeddf hon, a chanllawiau Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol sy'n cyd-fynd â hi, fel prif ffynhonnell wybodaeth. Darperir cyfeiriadau yn y testun lle bo hynny'n berthnasol**.

Gellir dod o hyd i ddolenni gwe ar gyfer canllawiau'r Cod Ymarfer yn adran 3.2 isod.

[1] Mae'r Ddeddf hefyd yn manylu ar y rheolau mewn perthynas â threfnu a thalu am wasanaethau gofal gartref/amhreswyl, er nad yw'r mater hwnnw'n cael ei drafod yn y canllaw hwn.

# 3 Cefndir – cael cymorth gan eich awdurdod lleol a'r prawf modd ariannol ar gyfer cartrefi gofal

## 3.1 Asesu anghenion a chymhwysedd ar gyfer gwasanaethau

Rhaid i'ch awdurdod lleol gynnal asesiad o'ch anghenion gofal a chymorth i sefydlu bod angen gwasanaethau cartref gofal arnoch **cyn** y gallwch gael cymorth gyda chost y lleoliad.

**Rhaid i'r awdurdod ddefnyddio meini prawf cymhwysedd cenedlaethol i wneud y penderfyniad hwn**.

Nid yw'r mater penodol hwn yn cael ei drafod yn fanwl yn y daflen wybodaeth hon, ond mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Nhaflen Wybodaeth Age Cymru 41w Asesiadau *gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion gofal yng Nghymru*.

---

**Nodwch:** O dan *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, mae gan awdurdod lleol **ddyletswydd gyfreithiol** i gynnal asesiad o unrhyw un sy'n byw yn ei ardal a *allai* fod angen gwasanaethau gofal cymdeithasol, unwaith bod yr awdurdod yn ymwybodol o'r angen hwn.

Hefyd, nid yw lefel **eu hadnoddau ariannol neu amgylchiadau eraill yn effeithio** ar hawl yr unigolyn i gael asesiad. *Fodd bynnag*, mae'n debygol y codir tâl am wasanaethau dilynol a ddarperir o ganlyniad i'r asesiad. Bydd faint rydych chi'n ei dalu yn cael ei benderfynu trwy brawf modd ariannol.

---

## 3.2 Canllawiau Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ar y prawf modd ariannol

Wrth gynnal asesiad ariannol o unigolyn sydd angen mynd i fyw mewn cartref gofal – ac wrth benderfynu'r pris sydd angen i'r unigolyn ei dalu – bydd angen i bob awdurdod lleol yng Nghymru gydymffurfio â'r canllaw canlynol gan Lywodraeth Cymru:

***Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Rhan 4 a 5 Cod Ymarfer (Codi Tâl ac Asesu Ariannol) (fersiwn 7 – Ebrill 2023).***

Mae yna gopi ar wefan Llywodraeth Cymru:[2]

**www.llyw.cymru/cod-ymarfer-codi-tâl-gwasanaethau-gofal-cymdeithasol (Saesneg yn unig)**

---

**Nodwch:** Mae yna ddogfennau eraill perthnasol, megis Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) a rhan 4 (Diwallu anghenion) ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru:

**www.gofalcymdeithasol.cymru/hwb/codau-ymarfer**

---

## 3.3 Gwybodaeth sy'n benodol i arhosiad dros dro mewn cartref gofal

Mae'r canllawiau a amlinellir yn adran 3.2 uchod yn cwmpasu'r rheolau am godi tâl ar gyfer arhosiad dros dro mewn cartref gofal ac arhosiad parhaol.

Fodd bynnag, does dim llawer o wybodaeth am arhosiadau dros dro. Mae yna eglurhad clir yn y rheoliadau yn Neddf *Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*.

---

**Nodwch:** "Is-ddeddfwriaeth yw rheoliadau. Dylid eu defnyddio pan mae angen mwy o fanylion wrth weithredu Deddf"[3]).

---

Dyma'r rheoliadau perthnasol:

***Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015***

Mae yna gopi ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru:

**www.socialcare.wales/hub/sswbact-regulations**

---

[2] Ar adeg ysgrifennu - Mai 2025 – mae'n debygol mai fersiwn Ebrill 2023 (fersiwn 7) fydd yn cael ei defnyddio. Fodd bynnag, efallai bydd fersiwn newydd yn cael ei rhyddhau yn hwyrach yn 2025.

[3] 'Gwasanaethau cymdeithasol a lles – Rheoliadau', gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru: www.socialcare.wales/hub/sswbact-regulations (cyrchwyd 27 Mai 2025).

## 3.4 Dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â gwybodaeth a chyngor ac eiriolaeth

Mae *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ddarparu "gwybodaeth, cyngor a chymorth... sy'n ymwneud â gofal a chenfnogaeth".[4]

Byddai hyn yn cynnwys gwybodaeth a chyngor ar wahanol faterion sy'n ymwneud â threfnu a thalu am ofal.

Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â gwasanaethau eiriolaeth. Os ydych chi'n cael trafferth mynegi eich barn a'ch anghenion, mae gwasanaethau eiriolaeth yn medru darparu cymorth.

Mewn llawer o achosion, yr awdurdod lleol fydd yn helpu pobl i ddod o hyd i gymorth eiriolaeth. Fel arall, bydd gan yr awdurdod ddyletswydd benodol i "drefnu eiriolwr proffesiynol annibynnol" ar gyfer unigolyn[5].

Mae rhagor o wybodaeth am y pwnc hwn yng nghanllawiau eraill Age Cymru, er enghraifft *41w Asesiadau gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion gofal yng Nghymru* a *10w Talu am leoliad cartref gofal parhaol yng Nghymru.*

# 4 Rheolau am godi tâl penodol lle penderfynir y bydd angen trefnu gofal dros dro

## 4.1 Dyma ddiffiniadau o'r gwahanol fathau o arosiadau mewn cartrefi gofal, fel y nodwyd yn Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru

**Yn gyffredinol, os ydy'r awdurdod lleol yn cynnal asesiad anghenion ac yn penderfynu bod angen i chi symud i fyw mewn cartref gofal, byddwch chi naill ai'n aros yn y cartref gofal dro dro, neu byddwch chi yno am gyfnod parhaol.**

---

[4] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Rhan 2 Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol), Llywodraeth Cymru.

[5] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Rhan 10 Cod Ymarfer (Eiriolaeth), Llywodraeth Cymru.

**Bydd eich statws yn dylanwadu ar sut mae'r ffioedd yn cael eu cyfrifo a'u talu. Felly, mae'n hanfodol eich bod chi'n darganfod beth yw eich statws cyn gynted â phosib. Mae'n rhaid i bawb gytuno beth yw eich statws, a'i nodi yn eich cynllun gofal a chymorth.**

**Mae *Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015* yn cynnwys tri math gwahanol o leoliad mewn cartrefi gofal:**

- **"Preswylydd tymor byr"** – dyma berson sy'n derbyn gofal mewn cartref gofal am gyfnod sy'n **llai nag 8 wythnos** (yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).

  Mae'n debygol bydd y categori hwn yn cynnwys pobl sy'n derbyn gofal seibiant mewn cartref gofal am gyfnod byr (i roi seibiant i aelod o'r teulu), cyn dychwelyd adref.

- **"Preswylydd dros dro"** – dyma berson sy'n:
  - "annhebygol o dderbyn gofal mewn cartref gofal am fwy na 52 wythnos; *neu*
  - mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n anhebygol bydd yr unigolyn yn derbyn gofal mewn cartref gofal am gyfnod sy'n sylweddol fwy na 52 wythnos"[6].

- **Preswylydd parhaol** – dyma berson sy'n mynd i fyw mewn cartref gofal am gyfnod amhenodol (yn gyffredinol oherwydd bod ganddyn nhw anghenion difrifol, a nid yw'n debygol y byddant yn medru dychwelyd i fyw yn eu cartref eu hunain).

## 4.2 Profion modd, a'r rheolau ar gyfer gwahanol fathau o leoliadau mewn cartrefi gofal

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r gwahanol reolau a chanllawiau sydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob un o'r gwahanol fathau o arosiadau mewn cartrefi gofal.

---

[6] Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad ariannol) (Cymru) 2015, Llywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| **Preswylydd tymor byr** | Mae’n rhaid i awdurdodau lleol "gynnal asesiadau ariannol o allu’r unigolyn i dalu am ofal **fel pe bai'r person yn derbyn gofal a chymorth amhreswyl**"[7].<br><br>Mewn geiriau eraill, byddwch yn talu fel pe baech chi'n derbyn gwasanaethau gofal *yn eich cartref eich hun*, yn hytrach nag mewn cartref gofal.<br><br>Mae'r rheolau ynghylch codi tâl am ofal amhreswyl – gan gynnwys manylion am yr isafswm ddylai fod gan yr unigolyn ar ôl iddo gyfrannu tuag at y costau gofal, ac uchafswm tâl wythnosol – i'w gweld yn Nhaflen Wybodaeth 46w Age Cymru *Talu am ofal a chymorth gartref yng Nghymru*. |
| **Preswylydd dros dro** | Gall yr awdurdod lleol gynnal prawf modd yn unol â'r rheolau codi tâl am ofal preswyl, **<u>ond</u>** mae yna wahaniaethau pwysig o ran cyfalaf ac incwm:<br><br>● Rhaid i'r awdurdod lleol anwybyddu gwerth eich cartref os ydych chi'n bwriadu dychwelyd i fyw yno (neu os ydych chi'n cymryd camau i'w werthu fel y gallwch brynu tŷ’n fwy addas) – Os fydd unigolyn yn dymuno dychwelyd i'r eiddo i fyw, byddai'n annheg cynnwys ei werth fel *cyfalaf* yn y prawf modd.<br><br>● Wrth gyfrifo *incwm y person*, rhaid i'r awdurdod lleol ddiystyru "costau sy’n gysylltiedig â thai”. Yn y rheoliadau, mae costau sy'n gysylltiedig â thai "yn golygu unrhyw ad-daliadau morgais, taliadau rhent neu rent tir, treth gyngor [a'r mwyafrif o daliadau] gwasanaeth"[8]. Mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru hefyd yn sôn am "daliadau sefydlog [megis yswiriant adeiladu [a] costau cyfleustodau (gan gynnwys gwresogi sylfaenol yn ystod y gaeaf) a chostau cynnal a chadw eiddo rhesymol".[9] |

[7] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Rhan 4 a 5 Cod Ymarfer (Codi Tâl ac Asesu Ariannol), Llywodraeth Cymru (fersiwn 7 – Ebrill 2023).

[8] Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad ariannol) (Cymru) 2015, Llywodraeth Cymru. Taliadau gwasanaeth a fyddai'n cael eu heithrio yw'r rhai "sy'n anghymwys o dan Atodlen 1 i Reoliadau Budd-dal Tai 2006 (ffioedd anghymwys)".

[9] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Rhan 4 a 5 Cod Ymarfer (Codi Tâl ac Asesu Ariannol), Llywodraeth Cymru (fersiwn 7 – Ebrill 2023).

| | |
|---|---|
| | ● “Pan fo person dros dro mewn cartref gofal ac yn aelod o gwpl (p'un a yw'n briod neu'n ddibriod) rhaid i'r awdurdod lleol ddiystyru unrhyw Gymhorthdal Incwm neu Gredyd Pensiwn a ddyfarnwyd i dalu am ymrwymiadau cartref a dylai ystyried anghenion y person gartref wrth osod yr MIA" [Isafswm Incwm] – gweler isod[10].<br><br>**Ar wahân i'r uchod, bydd yr awdurdod lleol yn cymhwyso'r rheolau prawf gallu ariannol fel y maent yn sefyll am breswylydd cartref gofal parhaol, gan gynnwys defnyddio'r un terfyn cyfalaf**.<br><br>Y terfyn cyfalaf presennol yng Nghymru ar gyfer y prawf codi tâl cartrefi gofal yw **£50,000**.<br><br>Fel gyda gofal amhreswyl, mae'r rheolau codi tâl cartrefi gofal hefyd yn cynnwys amod ynghylch **Isafswm Incwm (MIA),** er mwyn sicrhau bod preswylwyr yn cael eu gadael gyda swm penodol o incwm ar ôl eu talu tuag at eu ffioedd.<br><br>Ar gyfer preswylwyr cartrefi gofal parhaol mae hyn yn gyffredinol yn swm isel (ac yn sylweddol llai na'r MIA ar gyfer gofal amhreswyl) ac felly mae wedi'i gynllunio i gwmpasu eitemau personol sylfaenol yn unig. **Fodd bynnag, yng ngoleuni'r pwyntiau bwled uchod, ar gyfer preswylwyr dros dro efallai y bydd angen gosod hyn ar lefel uwch, fel y gellir bodloni'r "costau sy'n gysylltiedig â thai".**<br><br>Gweler Taflen Ffeithiau 10w *Age Cymru Talu am leoliad cartref gofal parhaol yng Nghymru* i gael rhagor o wybodaeth am yr MIA. |
| **Preswylydd parhaol** | Gall yr awdurdod lleol brawf modd yn unol â'r rheolau codi tâl gofal preswyl yn llawn, gan gynnwys – mewn amgylchiadau penodol – gan ystyried gwerth cyn-gartref y preswylydd (o ystyried eu bod yn breswylydd parhaol, felly ni fyddant yn dychwelyd iddo). |

[10] Ibid

| | |
|---|---|
| | Fodd bynnag, gellir anwybyddu gwerth cyn-gartref mewn rhai sefyllfaoedd, megis os yw'n parhau i fod yn cael ei feddiannu "yn rhannol neu'n gyfan gwbl fel eu prif gartref neu unig gartref"[11] gan bartner y preswylydd.<br><br>Gellir anwybyddu'r eiddo hefyd mewn rhai sefyllfaoedd eraill, ac mae diystyriadau posibl eraill o ran cyfalaf neu incwm, yn dibynnu ar amgylchiadau – gweler Taflen Ffeithiau 10w *Age Cymru Talu am leoliad cartref gofal parhaol yng Nghymru* a Thaflen Ffeithiau 38w *Trin eiddo yn y prawf modd ar gyfer darparu cartrefi gofal parhaol yng Nghymru* am ragor o fanylion. |

**Nodwch: Os ydych chi'n breswylydd mewn cartref gofal dros dro, ac rydych chi'n teimlo bod swm yr arian y caniateir i chi ei gadw ar ôl codi tâl yn rhy isel**

Os nad yw'r symiau y mae'r awdurdod lleol yn eu hanwybyddu o'ch incwm er mwyn i chi allu parhau i dalu costau sy'n gysylltiedig â thai am eich cartref yn ddigonol, gallwch ofyn am adolygiad o asesiad ariannol yr awdurdod (neu os oes angen, gwneud cwyn). Bydd angen i chi nodi'r rhesymau pam nad yw'r arian a ddyrannwyd yn ddigonol.

Gweler Taflen Wybodaeth 59w Age Cymru *Sut i ddatrys problemau a gwneud cwyn am ofal cymdeithasol yng Nghymru* i gael rhagor o wybodaeth.

[11] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Rhan 4 a 5 Cod Ymarfer (Codi Tâl ac Asesu Ariannol), Llywodraeth Cymru (fersiwn 7 – Ebrill 2023).

# 5 Budd-daliadau lles yn ystod cyfnod o ofal dros dro mewn cartref gofal

## 5.1 Budd-daliadau Anabledd – Lwfans Gweini, Taliad Annibyniaeth Bersonol a Lwfans Byw i'r Anabl[12]

Mae *Rheoliadau Gofal a Chymorth Llywodraeth Cymru (Asesiad ariannol) (Cymru) 2015* yn datgan:

**Lle mae rhywun "yn breswylydd dros dro... unrhyw Lwfans Gweini... elfen gofal o Lwfans Byw i'r Anabl; Dylid anwybyddu Taliad Annibyniaeth Personol wrth gyfrifo incwm".**

Fodd bynnag, bydd y budd-daliadau uchod yn stopio ar ôl *pedair wythnos* o dderbyn cymorth gan yr awdurdod lleol tuag at ffioedd cartrefi gofal. Felly, dylai'r awdurdod lleol ystyried y newid i'ch incwm o ganlyniad i golledion yn eich Lwfans Gweini, Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Bersonol oherwydd y rheol pedair wythnos. Er enghraifft, fel y trafodwyd uchod, mae angen i'r awdurdod ystyried eich gallu i barhau i dalu biliau ar gyfer eich cartref wrth godi tâl arnoch am arhosiad dros dro mewn cartref gofal, felly efallai y bydd angen iddynt ganiatáu i chi gadw mwy o incwm o ffynonellau eraill unwaith nad ydych yn cael y budd-daliadau uchod mwyach.

Ar ôl i chi ddychwelyd adref, gall Lwfans Gweini, Lwfans Byw i'r Anabl, neu Daliad Annibyniaeth Bersonol ailddechrau. Fodd bynnag, efallai y byddant yn cael eu heffeithio os byddwch yn dychwelyd i fyw mewn cartref gofal o fewn 28 diwrnod wedi eich arhosiad diwethaf.

---

**Nodwch: Dywedwch wrth y swyddfa sy'n ymdrin â'ch hawliad os ydych chi'n mynd i mewn neu allan o gartref gofal**.

---

Am ragor o wybodaeth, mae gan Age UK daflenni gwybodaeth defnyddiol:

- Taflen Wybodaeth 34 *Lwfans Gweini*

[12] Mae Taliad Annibyniaeth Bersonol yn disodli Lwfans Byw i'r Anabl, felly ni ellir gwneud unrhyw hawliadau newydd am Lwfans Byw i'r Anabl. Os ydych eisoes yn hawlio Lwfans Byw i'r Anabl, byddwch yn gallu parhau i'w dderbyn (ar yr amod eich bod yn parhau i fodloni'r amodau cymhwysedd), ond efallai y cewch eich ailasesu ar gyfer Taliad Annibyniaeth Bersonol yn y dyfodol (byddwch yn cael llythyr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dweud wrthych pryd y bydd hyn yn digwydd a sut y gallwch wneud cais am Taliad Annibyniaeth Bersonol yn lle hynny).

- Taflen Wybodaeth 87 *Taliad Annibyniaeth Bersonol a Lwfans Byw i'r Anabl*

### Cydrannau symudedd

Nid yw'*r prawf modd yn effeithio ar elfen symudedd* Lwfans Byw i'r Anabl neu *gydran symudedd* Taliad Annibyniaeth Bersonol - hynny yw, maent yn cael eu hanwybyddu ym mhob sefyllfa, p'un a yw eich arhosiad yn gyfnod dros dro neu'n barhaol.

## 5.2 Credyd Pensiwn

### Pobl sengl a chyplau

**Os ydych chi'n derbyn Credyd Pensiwn cyn i chi symud i gartref gofal, mae'n bwysig hysbysu'r Gwasanaeth Pensiwn am y newid er mwyn iddyn nhw ailasesu eich hawl.**

Gall preswylwyr dros dro mewn cartrefi gofal y mae eu dyfarniad Credyd Pensiwn yn cynnwys cymorth ar gyfer costau tai penodol, fel arfer barhau i dderbyn yr elfen hon am hyd at 13 wythnos, ac weithiau am hyd at 52 wythnos (fel y soniwyd yn adran 4.1 uchod, 52 wythnos yw'r uchafswm arferol o amser y bydd awdurdod lleol yn cytuno bod arhosiad mewn cartref gofal yn gyfnod dros dro).

Mae gan daflen wybodaeth 48 Credyd Pensiwn Age UK
ragor o wybodaeth.

### Materion penodol i gyplau

Os ydych chi'n gwpwl, byddwch chi'n parhau i gael eich trin fel cwpl os nad ydych chi'n debygol o fod ar wahân am fwy na 52 wythnos. O ganlyniad, pan fydd un o'r cwpwl yn mynd i mewn i gartref dros dro, mae Credyd Pensiwn yn parhau i gael ei gyfrifo a'i dalu ar y gyfradd ar gyfer cwpl, yn hytrach na'r gyfradd ar gyfer dau berson sengl.

---

**Nodwch:** Mae hyn yn wahanol i drefniant parhaol – ar gyfer gofal parhaol mewn cartref gofal bydd y Gwasanaeth Pensiwn yn trin cwpl fel dau unigolyn ar wahân at ddibenion asesu cymhwysedd Credyd Pensiwn.

---

Fel y nodwyd yn adran 4.2 uchod, mae awdurdodau lleol wedi cael cyfarwyddyd i arfer disgresiwn wrth gynnal asesiadau ariannol ar gyfer preswylwyr dros dro mewn cartrefi gofal sy'n un o gwpl ("p'un a yw'n briod neu'n ddibriod"), fel bod y partner sy'n aros gartref yn cael ei adael gydag incwm digonol ar gyfer eu hanghenion.

# 6 Pan fydd gofal dros dro yn dod yn barhaol

Weithiau mae gofal preswyl yn cael ei drefnu dros dro, ond yna daw'n amlwg bod angen i'r person aros mewn cartref gofal yn barhaol.

**Pan fydd hyn yn digwydd, bydd angen i'r awdurdod lleol gymhwyso'r prawf modd ar gyfer preswylydd parhaol o'r dyddiad y penderfynir bod eich arhosiad yn dod yn barhaol – hynny yw, bydd yr awdurdod lleol yn cymhwyso'r prawf modd ariannol ar gyfer preswylwyr parhaol yn ei gyfanrwydd ac ni fydd angen ystyried y gwahaniaethau ar gyfer preswylwyr dros dro** (fel yr amlinellir uchod yn adran 4).

Gweler Taflen Wybodaeth 10w Age Cymru *Talu am leoliad parhaol mewn cartref gofal yng Nghymru*.

Bydd angen diwygio'ch cynllun gofal hefyd yn unol â hynny, i adlewyrchu'r trefniadau newydd.

Efallai y bydd eich hen gartref yn cael ei ddiystyru **am gyfnod amhenodol** o’r prawf gallu ariannol ar gyfer darpariaeth cartrefi gofal parhaol os yw'n cael ei feddiannu "yn rhannol neu'n gyfan gwbl fel eu prif gartref neu'r unig gartref"[13] gan eich partner ac – mewn *rhai* achosion yn unig – os yw'n cael ei feddiannu gan berthynas arall[14]).

[13] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Rhan 4 a 5 Cod Ymarfer (Codi Tâl ac Asesu Ariannol), Llywodraeth Cymru (fersiwn 7 – Ebrill 2023).

[14] Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, perthynas sy'n 60 oed neu'n hŷn, neu berthynas iau sy'n 'analluog' – gweler Taflen Ffeithiau Age Cymru 38w *Trin eiddo yn y prawf modd ar gyfer darpariaeth cartrefi gofal parhaol yng Nghymru* am ragor o wybodaeth.

Os na fydd hyn yn berthnasol, dylid anwybyddu gwerth yr eiddo yn eich hen gartref am 12 wythnos o'r dyddiad bydd eich arhosiad yn barhaol (ar yr amod bod gwerth eich cyfalaf arall, minws yr eiddo, yn is na'r terfyn cyfalaf o £50,000). Dylid nodi hefyd bydd yr eiddo hwn yn cael ei ddiystyrru am 12 wythnos yn unig (h.y. fel y cyfryw, os ydych chi'n berchen ar unrhyw eiddo arall – er enghraifft rydych chi'n rhentu – bydd y gwerth yn cael ei ystyried ar unwaith heb ddiystyru 12 wythnos).[15]

### Mathau eraill o incwm a chyfalaf (ac eithrio eiddo)

Yn gyffredinol, gellir ystyried eich incwm a'ch cyfalaf arall ar unwaith yn y prawf modd ariannol (oni bai bod anwybyddiaeth benodol sy'n berthnasol iddo, fel y manylir yng nghanllawiau'r Cod Ymarfer – unwaith eto, gweler Taflen Wybodaeth 10w Age Cymru *Talu am leoliad parhaol mewn cartref gofal yng Nghymru* am restrau o'r mathau o gyfalaf ac incwm y gellir eu hanwybyddu).

---

### Nodwch: Arhosiad mewn cartref gofal a oedd yn barhaol i ddechrau, ond sydd bellach dros dro yn unig

Yn gyffredinol, bydd sefyllfa fel hyn yn llai tebygol, ond weithiau gallai sefyllfa fod i'r gwrthwyneb i'r hyn a nodwyd yn yr adran hon – h.y. gall arhosiad a aseswyd i ddechrau fel arhosiad parhaol fod dros dro (er enghraifft, oherwydd bod rhywun yn gallu symud i fyw gyda ffrindiau neu deulu; neu mae'r unigolyn yn mynd i fyw mewn tŷ gwarchod). Os felly, ni ddylai'r awdurdod barhau i gymhwyso unrhyw reolau a fyddai wedi effeithio ar y person fel preswylydd parhaol, megis ystyried gwerth ei eiddo.

---

## 7 Adsefydlu – gofal canolradd, ailalluogi a chyfleuster â gwelyau cam i lawr er mwyn adfer

Os yw eich lle mewn cartref gofal wedi'i drefnu fel rhan o becyn adsefydlu – a elwir yn aml  yn **ofal canolradd** – lle rydych chi'n cael therapi neu driniaeth tymor byr, naill ai ar ôl peth amser yn yr ysbyty neu er mwyn osgoi gorfod mynd i'r ysbyty, dylid ei ddarparu **yn rhad ac am ddim am hyd at chwe wythnos**.

---

[15] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Rhan 4 a 5 Cod Ymarfer (Codi Tâl ac Asesu Ariannol), Llywodraeth Cymru (fersiwn 7 – Ebrill 2023).

Yn ogystal, mae gwasanaethau adsefydlu gofal cymdeithasol – a elwir yn **'ailalluogi'** – hefyd yn cael eu darparu am ddim am y chwe wythnos gyntaf. Efallai y byddant yn cael eu darparu drwy arhosiad dros dro mewn uned breswyl arbenigol neu gartref gofal preswyl (yn aml byddant yn cael eu darparu yn eich cartref eich hun, er nad yw'r elfen benodol hon yn cael ei chynnwys yn y daflen wybodaeth hon).

Mae rhywfaint o orgyffwrdd hefyd â chanllawiau diweddar GIG Cymru ar **wasanaethau 'cam i lawr er mwyn adfer'**.

Mae gwasanaethau 'cam i lawr' wedi'u cynllunio i ganiatáu i bobl adael yr ysbyty cyn gynted â phosibl, tra'n parhau i ddarparu cymorth ar gyfer adferiad ac adsefydlu (yn yr un modd â gofal canolradd ac ailalluogi, byddant yn 'gyfyngedig o ran amser'). Maen nhw'n gyfleusterau "ar gyfer pobl sy'n barod i gael eu rhyddhau o'r ysbyty ond nad ydynt yn gallu dychwelyd i'w hen gartref [ac mae] angen adsefydlu neu ailalluogi ychwanegol tu allan i'w cartref arferol".[16] Fodd bynnag, dylid nodi "mai'r disgwyliad [fydd] symud pobl yn ôl i'w cartrefi cyn gynted â phosibl"[17].

## Estyniadau i wasanaethau adsefydlu

Nid yw'r gwasanaethau a amlinellir uchod fel arfer yn para mwy na chwe wythnos. Fodd bynnag, gellir eu hymestyn o bryd i'w gilydd.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler Taflen Wybodaeth 76w Age Cymru *Ailalluogi, gofal canolradd a gwasanaethau ataliol yng Nghymru*.

Ar ddiwedd y cyfnod adsefydlu, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer:

- gofal iechyd parhaus y GIG a ariennir yn llawn (gweler Taflen Wybodaeth 20w *Gofal iechyd parhaus y GIG a gofal nyrsio a ariennir gan y GIG yng Nghymru*); *neu*
- gwasanaethau gofal cymdeithasol eraill – codir tâl arnoch fel arfer drwy brofion modd – megis:
    - gwasanaethau gofal yn eich cartref eich hun (gweler Taflen Wybodaeth 46w Age Cymru *Talu am ofal a chymorth gartref yng Nghymru*);

---

[16] 'Cam i lawr i Adfer (SD2R): Canllawiau Isafswm Gwasanaeth Cenedlaethol', (Medi 2023), GIG Cymru.
[17] Ibid

- arhosiad dros dro mewn cartref gofal (fel yr amlinellir yn y daflen wybodaeth hon); *neu*
- arhosiad hirdymor mewn cartref gofal (gweler Taflen Wybodaeth 10w Age Cymru *Talu am leoliad parhaol mewn cartref gofal yng Nghymru*).

# 8 Sefydliadau defnyddiol

### Cyngor Age Cymru

Gwybodaeth a chyngor cyfrinachol am ddim ar faterion sy'n effeithio ar bobl dros 50 oed yng Nghymru. Gwasanaeth ar gael yn Gymraeg neu Saesneg.

**Ffôn: 0300 303 44 98**

**E-bost: advice@agecymru.org.uk**

**Gwefan: www.agecymru.wales/advice**

### Sefydliadau Age Cymru (lleol)

Efallai y bydd eich cangen Age Cymru lleol yn gallu darparu cyngor a chefnogaeth ar ystod o faterion. **Gall Cyngor Age Cymru** ddarparu manylion cyswllt eich cangen Age Cymru lleol (gweler uchod), neu ewch i wefan Age Cymru:

www.agecymru.wales/local

### CartrefiGofal.Cymru

Mae'r wefan hon yn cael ei chynnal gan Data Cymru (cwmni llywodraeth leol yng Nghymru gyda Bwrdd Cyfarwyddwyr wedi'i ethol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru). Dylai pob cartref gofal i oedolion yng Nghymru gael ei rhestru, gyda gwybodaeth sylfaenol wedi'i diweddaru'n uniongyrchol gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Bydd gwybodaeth yn cael ei rhestru am y math o ofal a ddarperir; dolenni i'r adroddiad arolygu diwethaf a gwybodaeth am swyddi gwag.

E-bost: support@CareHomes.wales
Gwefan: www.carehomes.wales

### Arolygiaeth Gofal Cymru

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru’n arolygu ac yn rheoleiddio gofal a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Ffôn: 0300 7900 126
E-bost: ciw@gov.wales
Gwefan: www.careinspectorate.wales

### Gofalwyr Cymru

Elusen sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i ofalwyr.

Ffôn: 029 2081 1370
E-bost: info@carerswales.org
Llinell gyngor Carers UK: 0808 808 7777
Gwefan: www.carerswales.org

### Cyngor ar Bopeth

Canolfannau cyngor am ddim sy'n cynnig cyngor cyfrinachol ac annibynnol.

Ffôn: 0800 702 2020
Gwefan: www.citizensadvice.org.uk/wales

### Dewis Cymru

Gwefan sy'n eiddo i awdurdodau lleol ledled Cymru ac a ariennir ganddynt. Sefydlwyd y safle gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo i gyflawni darpariaethau penodol yn *Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).* Mae'r wefan yn cynnwys cronfa ddata helaeth o wasanaethau i helpu gyda llesiant.

www.dewis.wales

### Llais

Corff sy'n cynrychioli lleisiau a barn pobl yng Nghymru mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Ffôn: 029 20 235558
E-bost: enquiries@llaiscymru.org
Gwefan: www.llaiswales.org

### Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Hyrwyddwr annibynnol dros bobl hŷn ledled Cymru.

Ffôn: 03442 640 670
E-bost: ask@olderpeople.wales
Gwefan: www.olderpeople.wales

### Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae'r Ombwdsmon yn edrych i weld a yw pobl wedi cael eu trin yn annheg neu wedi derbyn gwasanaeth gwael gan gorff cyhoeddus, fel awdurdod lleol. Gall pobl sy'n hunan-ariannu eu gofal yn llawn gwyno i'r Ombwdsmon hefyd.

Ffôn: 0300 790 0203
E-bost: ask@ombudsman.wales
Gwefan: www.ombudsman.wales

### Llywodraeth Cymru

Llywodraeth ddatganoledig Cymru.

Ffôn: 0300 060 4400
E-bost: customerhelp@gov.wales
Gwefan: www.gov.wales

# 9 Rhagor o wybodaeth am Age Cymru

## 9.1 Pwy ydyn ni?

**Age Cymru yw'r elusen genedlaethol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.**

**Ein gweledigaeth** yw cymdeithas sy'n cynnig y profiad gorau o heneiddio i bob bobl yng Nghymru. Mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, eu cynnwys ac yn gallu llunio penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

**Ein cenhadaeth** yw gwella bywydau pobl hŷn trwy ddarparu cyngor, cymorth a gwasanaethau dibynadwy. Rydym yn defnyddio ein gwybodaeth, ein mewnwelediad a'n profiad i ddylanwadu ar bolisïau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar bobl hŷn.

Ynghyd â'n partneriaid lleol:

- rydym yn darparu gwybodaeth a chyngor;
- rydym yn darparu rhaglenni llesiant;
- rydym yn darparu eiriolaeth annibynnol;
- rydym yn cefnogi gofalwyr; *a*
- rydym yn ymgyrchu ac yn ymchwilio.

**Age Cymru**

Tŷ'r Morwyr
Llys Trident
Ffordd Ddwyrain Moors
Caerdydd
CF24 5TD

029 2043 1555

www.agecymru.wales

Elusen Gofrestredig 1128436

## 9.2 Sut fedrwn ni helpu

### Cyngor Age Cymru: ein gwasanaeth gwybodaeth a chyngor ar gyfer materion sy'n effeithio ar bobl dros 50 oed yng Nghymru

Mae Cyngor Age Cymru wedi ymrwymo i fod y gwasanaeth gwybodaeth a chyngor mwyaf blaenllaw i bobl hŷn yng Nghymru. Ein nod yw darparu gwybodaeth a chyngor effeithiol, hygyrch, o ansawdd uchel wrth gynnig gwasanaeth diduedd a chyfrinachol am ddim. Gall Cyngor Age Cymru gynorthwyo pobl hŷn, eu teuluoedd, eu ffrindiau, gofalwyr, neu weithwyr proffesiynol.

Gallwch lawrlwytho ein holl daflenni gwybodaeth a chanllawiau o'n gwefan, neu cysylltwch â'n llinell gyngor i ofyn am gopïau papur drwy'r post am ddim.

## Cymorth lleol

Mae Cyngor Age Cymru hefyd yn gweithredu fel porth i'n gwasanaethau lleol. Gall cymorth wyneb yn wyneb trwy ein swyddfeydd lleol ac ymweliadau cartref fod ar gael i bobl sydd angen cymorth ychwanegol neu gymorth fwy arbenigol.

## Cysylltwch â ni

Os hoffech chi siarad ag un o'n cynghorwyr arbenigol, yn Gymraeg neu Saesneg, ffoniwch ni ar **0300 303 44 98**. Mae ein llinell gyngor ar agor rhwng 9am a 4pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Codir tâl ar alwadau ar yr un gyfradd â galwad i rif 01 neu 02 safonol. Byddant hefyd yn cael eu cynnwys yn awtomatig mewn unrhyw becyn munudau cynhwysol llinell dir neu ffôn symudol. Gallwch hefyd:

- e-bostio **advice@agecymru.org.uk**; *neu*
- ewch i'n gwefan www.agecymru.wales/advice

Age UK Information & Advice Quality Assured

Gwasanaeth Cwbl Achrededig sy'n cynnwys adolygu gan gymheiriad
Fully Accredited Service with peer review

IAQF Cymru Wales — Llywodraeth Cymru Welsh Government

darparu gwybodaeth a chyngor o safon i bobl Cymru a hynny mewn modd sy'n gyson
providing a consistent approach to quality information and advice for the people of Wales

Helplines Partnership Member

www.facebook.com/agecymru

www.x.com/AgeCymru

www.youtube.com/agecymru

---

**Gwybodaeth am ymwadiad a hawlfraint**

Nid yw'r daflen wybodaeth hon yn ddatganiad cynhwysfawr o'r gyfraith yn y maes hwn. Ni all Age Cymru roi cyngor cyfreithiol neu ariannol penodol ac mae'n bosibl bod rhai rheolau wedi newid ers cyhoeddi'r daflen wybodaeth hon. Sylwch nad yw'r asiantaethau, cwmnïau, cynhyrchion, gwasanaethau neu gyhoeddiadau a enwir yn y daflen ffeithiau hon yn gyfystyr ag argymhelliad na chymeradwyaeth gan Age Cymru. Er bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau cywirdeb, ni all Age Cymru fod yn gyfrifol am gamgymeriadau neu hepgoriadau.

© Age Cymru 2025. Cedwir pob hawl. Gall sefydliadau Age Cymru lleol atgynhyrchu'r daflen wybodaeth hon yn llawn neu'n rhannol, heb ei newid, gyda chydnabyddiaeth briodol i Age Cymru. Ni chaniateir unrhyw fath arall o atgynhyrchu mewn unrhyw ffurf heb ganiatâd ysgrifenedig gan Age Cymru.

---

## Sut allwch chi helpu

Mae'r holl wybodaeth a chyngor a ddarparwn yn rhad ac am ddim ac yn gwbl ddiduedd. Mewn llawer o achosion, gall ein ymyrraeth amserol newid bywyd yr unigolyn. Rydym yn boblogaeth sy'n heneiddio ac mae mwy o bobl nag erioed yn troi atom am gefnogaeth. Helpwch ni i gefnogi pobl hŷn mewn angen.

## Gwnewch rodd

Mae rhoddion yn gwneud gwahaniaeth enfawr ac yn ein helpu i barhau â'n gwaith pwysig.

Ffoniwch: **029 2043 1555**
Ewch i: **www.agecymru.wales/donate**

Neu sganiwch y cod QR isod:

Mae pob rhodd yn ein helpu i fod yno i rywun sydd angen ein help.

- Mae £10 yn helpu tuag at weithiwr cyngor arbenigol wedi'i hyfforddi'n llawn i ymateb i ymholiadau gan bobl sydd angen cymorth ein gwasanaeth gwybodaeth a chyngor.
- Mae £20 yn helpu tuag at y gost o gynhyrchu canllawiau gwybodaeth a thaflenni gwybodaeth am ddim sy'n rhoi cyngor defnyddiol ar faterion sy'n effeithio ar bobl dros 50 oed.

## Codi arian

Gwerthu nwyddau pob, rhedeg marathon neu wau hetiau bach ar gyfer Yr Her Wau – mae sawl ffordd o godi arian hanfodol i gefnogi ein gwaith.

Ffoniwch: **029 2043 1555**
Ewch i: **www.agecymru.wales/getinvolved**

## Gwirfoddoli

Gallwch ein cefnogi i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl hŷn trwy ein helpu mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae llawer o gyfleoedd i gymryd rhan. Cysylltwch â ni.

Ffoniwch: **029 2043 1555**
Ewch i: **www.agecymru.wales/volunteer**

## Rhodd yn eich ewyllys

Drwy adael rhodd i Age Cymru yn eich ewyllys, rydych chi'n sicrhau bod pobl hŷn yn cael y gefnogaeth maen nhw'n ei haeddu yn ystod y blynyddoedd i ddod. Gadewch y byd yn le llai unig.

Ffoniwch: **029 2043 1555**
Ewch i: **www.agecymru.wales/legacy**